



Dawn Docx
Prif Swyddog Tân / Chief Fire Officer

ATODIAD 3

Eich Cyf/Your Ref:
Ein Cyf/Our Ref: AJH
Dyddiad/Date: 30/05/2025
Gofynner am/Ask for: Alastair Horton
Rhif Union/Direct Dial: 01745 352772

Malcolm Mather
Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd)
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
Cyngor Sir Ddinbych
Caledfryn
Ffordd y Ffair
Dinbych
LL16 3RJ

Annwyl Syr

Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth Sir Ddinbych

Arweiniodd mabwysiadu Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth yn y Rhyl yn ôl yn 2010 at archwilio Tai Amlfeddiannaeth hysbys a rhai nas nodwyd o'r blaen a chymryd camau yn erbyn landlordiaid gan Gyngor Sir Dinbych a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i wella bywydau a diogelwch trigolion.

Ers hynny, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad mewn tanau a chwynion mewn perthynas ag eiddo Tai Amlfeddiannaeth yn ardal y Rhyl. Yn flaenorol, roedd llawer o eiddo yn peri risg uchel o dân a risg uchel i fywyd oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys rheolaeth wael a diffyg darpariaethau diogelwch tân a chynnal a chadw addas. Er bod problemau o'r fath yn dal i godi, maent wedi'u lleihau'n sylweddol o'i gymharu â chyn gweithredu'r cynllun a gellir mynd i'r afael â nhw'n well trwy reoleiddio mwy cadarn y gall trwyddedu ei alluogi.

Roedd estyniad y cynllun yn 2020 i gynnwys Prestatyn, Dinbych a Llangollen yn gwasanaethu'r un pwrpas yn yr ardaloedd hynny. Rydym yn cefnogi'n llwyr ymestyn y cynllun ymhellach i gynnwys Sir Ddinbych gyfan. Mae archwiliadau o safleoedd Tai Amlfeddiannaeth yn y sir nad ydynt ar hyn o bryd yn destun trwydded (nac felly archwiliad arferol) wedi cyflwyno llawer o broblemau diogelwch tân gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):


- Trefniadau canfod tân a larwm tân nad ydynt yn bodoli neu'n annigonol
- Cynlluniau anffafriol fel ystafelloedd mewnol oddi ar ystafelloedd risg
- Llwybrau dianc heb eu diogelu'n ddigonol - e.e. drysau tân nad ydynt yn bodoli neu'n ddiffygiol
- Drysau sy'n gofyn am ddefnyddio allwedd i alluogi dianc
- Darpariaethau goleuadau brys nad ydynt yn bodoli neu'n annigonol
- Gwybodaeth diogelwch nad yw'n bodoli neu'n annigonol i drigolion

- Gweithdrefnau brys nad ydynt yn bodoli neu'n annigonol
- Darpariaethau offer diffodd tân nad ydynt yn bodoli neu'n annigonol
- Rhaglenni archwilio, profi a chynnal a chadw nad ydynt yn bodoli neu'n annigonol
- Trefniadau adrodd am ddiffygion nad ydynt yn bodoli neu'n annigonol
- Risgiau llosgi bwriadol o ganlyniad i drefniadau diogelwch gwael
- Rheolaeth diogelwch tân cyffredinol gwael

Gall llawer o'r problemau uchod beri risg o farwolaeth neu anaf difrifol i ddeiliaid; gellid lleihau'r risg o farwolaethau ac anafiadau tân mewn Tai Amlfeddiannaeth yn Sir Ddinbych ymhellach trwy ymestyn y cynllun trwyddedu ychwanegol i gwmpasu'r Sir gyfan. Mae wedi'i brofi bod trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth wedi arwain at safonau sylweddol well yn i breswylwyr.

Gweler yr ystadegau tân sydd ynghlwm fel y gofynnwyd. Mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog a enwir uchod os oes arnoch chi angen rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,



Technegydd Peirianneg Tân

Tannau yn cynnwys Fflatiau/Tai Amlfeddiannaeth yn Sir Ddinbych ers 2019/20 (gan gynnwys Galwadau Tân Hwyr)

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	Cyfanswm
Fflat Wedi'i Drosi/Fflat Deulawr - amlfeddiannaeth	8	5	1	5	7	1	27
Tai Amlfeddiannaeth Trwyddedig	0	0	0	1	0	0	1
Fflat Pwrpasol/Fflat Deulawr - amlfeddiannaeth	10	13	9	11	15	8	66
Tai Amlfeddiannaeth di-drwydded	0	1	0	0	0	0	1
Cyfanswm	18	19	10	17	22	9	95

Tannau yn cynnwys Fflatiau/Tai Amlfeddiannaeth yn Sir Ddinbych ers 2019/20 (gan gynnwys Galwadau Tân Hwyr) yn ôl Cymhelliad

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	Cyfanswm
Damweiniol	16	18	8	14	21	7	84
Bwriadol - eiddo eraill	1	0	0	0	0	0	1
Bwriadol - eiddo eu hunain	0	0	0	1	0	0	1
Bwriadol - perchennog anhysbys	1	0	2	1	1	2	7
Anhysbys	0	1	0	1	0	0	2
Cyfanswm	18	19	10	17	22	9	95

Tannau yn cynnwys Fflatiau/Tai Amlfeddiannaeth yn ôl ardal ers 2019/20 (gan gynnwys Galwadau Tân Hwyr)

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	Cyfanswm
Corwen	0	0	0	0	1	0	1
Dinbych	0	2	0	0	1	1	4
Llandegla	1	0	0	0	0	0	1
Llangollen	1	0	0	0	1	0	2
Prestatyn	1	1	1	2	2	4	11
Y Rhyl	13	15	6	15	15	4	68
Rhuthun	2	1	2	0	1	0	6
Llanelwy	0	0	1	0	1	0	2
Cyfanswm	18	19	10	17	22	9	95